

Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

Gwybodaeth ymhellach i'r cwestiwn atodol i OAQ21201, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, Y Prif Weinidog, ar 13 Ionawr 2003

I Nick Bourne:

Yr wyf yn ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cwestiwn atodol i OAQ21201 ar 17 Rhagfyr 2002 a oedd, i bob diben, yn gofyn imi ymyrryd i sicrhau bod Mr David Thompson o New Inn, Gwent, yn cael triniaeth i dynnu tyfiant, gan fod y driniaeth hon wedi ei chanslo ar bedwar achlysur gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Byddai'n amhriodol i mi ymyrryd, fel y byddai i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan y gallai effeithio ar benderfyniadau clinigol y mae'n rhaid eu gadael i'r rheini sy'n gymwys i'w gwneud. Ymrwymais i ymchwilio i'r mater gyda Jane Hutt ac anfon ateb atoch.

Deallaf bod swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â Mr Thompson, a ffrindiau a pherthnasau iddo a oedd wedi ffonio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei ran, ac y dywedwyd wrthynt, megis uchod, na allai Gweinidogion na swyddogion ymyrryd mewn achosion o'r fath, ond y gallem godi hyn gyda'r ymddiriedolaeth o dan sylw, a allai wedyn drafod yr achos yn uniongyrchol gyda Mr Thompson. Cafodd driniaeth ar 18 Rhagfyr.

Mae gohirio llawdriniaethau yn peri loes i gleifion ac yr ydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i leihau hyn. Mae triniaethau yn gorfod cael eu gohirio pan geir cynnydd yn y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf, a chan fod derbyniadau brys o ran eu natur yn achosion nad oes modd eu rhagweld, mae'n anodd dileu hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro lefelau'r llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar draws Cymru yn fanwl fel rhan o raglen a fwrw goleuni ar y rhesymau a sicrhau y ceir cyn lleied â phosibl o ganslo. Mae ein canllawiau cyfredol i'r gwasanaeth iechyd gwladol yn datgan, lle bo rhaid canslo llawdriniaeth frys, y dylai prif weithredwr yr ymddiriedolaeth gael ei gynnwys yn y camau gweithredu a gymerir i bennu dyddiad newydd ar gyfer y llawdriniaeth. Dylai ef neu hi hefyd egluro'r rheswm dros ganslo wrth y claf, ei deulu neu ei ofalwr, a rhoi gwybod iddynt am y dyddiad newydd sydd wedi'i bennu a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y cedwir at y trefniant hwnnw.

Yn ogystal, mae'r 'Cyfarwyddyd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru' newydd yn datgan

'ni ddylai'ch triniaeth gael ei chanslo ar ôl ichi gael eich derbyn i'r ysbyty, nac ar ddiwrnod y driniaeth ychwaith, am resymau nad ydynt yn ymwneud â'ch cyflwr meddygol. Os caiff ei chanslo, dylech gael y driniaeth o fewn 28 o ddiwrnodau. Os na fydd hyn yn bosib, bydd yr ysbyty'n trefnu eich bod chi'n cael gwybod, a hynny o fewn 28 o ddiwrnodau, beth fydd dyddiad newydd y driniaeth.'

Ar wahân i gynyddu'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r GIG yng Nghymru yn ddirfawr, mae'r weinyddiaeth hon wedi cymryd nifer o gamau yn benodol i gynyddu gallu'r gwasanaeth a hybu defnydd effeithlon o'r gallu hwnnw.

O ran gofal mewn argyfwng, yn 2001 sefydlodd Jane Hutt grŵp gofal mewn argyfwng i Gymru gyfan, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl arbenigaethau hynny sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng. Mae'r grŵp yn adolygu'r gwasanaethau gofal mewn argyfwng i oedolion yng Nghymru ac yn ystyried ar sail strategol sut y dylid datblygu a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r grŵp wedi datblygu set o safonau gofal mewn argyfwng, a fydd yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru drwy fframwaith gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau gofal priodol a digonol ar gael mewn argyfwng ar draws Cymru yn y dyfodol. Y cam nesaf yng ngwaith y grŵp fydd cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth gwasanaethau gyfredol ar draws Cymru i ganfod ymhle mae'r gwasanaethau yn annigonol ac yn cael eu defnyddio'n amhriodol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gyfredol yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial.

Yn fwy cyffredinol, mae adroddiad diweddar ar allu o fewn GIG Cymru, 'Cadw Cydbwysedd', yn cydnabod yr angen i ymdrin â'r sefyllfa o safbwynt systemau cyfan. Mae'n cydnabod bod angen i bob sector weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y galw a'r cyflenwad, rhwng beichiau gwaith argyfwng a dewisol. Mae'n argymhell y dylid cyflwyno newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn cynyddu'r gallu ac mae tîm arloesi mewn gofal y Cynulliad wedi bod yn helpu i foderneiddio gwasanaethau a gwella mynediad at ofal i gleifion.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Jane Hutt £7 miliwn ychwanegol i helpu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol y gaeaf hwn. Caiff £5 miliwn arall ei ddyrannu yn 2003-04 a bydd yn help i gyllido cynlluniau rhyddhau yn fuan a mentrau i gadw pobl allan o'r ysbyty, gan leihau'r pwysau sy'n gallu arwain at ohirio llawdriniaethau drwy hynny. Mae Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd yn bwriadu agor uned derbyniadau brys newydd dros y misoedd nesaf, o dan arweiniad dau feddyg achosion brys newydd. Dylai'r cyfleuster hwn helpu ymhellach i ostwng lefel y derbyniadau a lleihau'r pwysau am welyau.

Diolch ichi am eich diddordeb yn y mater hwn ac am roi'r cyfle imi i amlinellu rhai o'r canllawiau a'r mentrau sydd wedi'u sefydlu, gyda chyllid ychwanegol yn gefn iddynt, er mwyn helpu i liniaru'r pwysau ar ein gwasanaeth iechyd a chyfyngu ar nifer y triniaethau i gleifion sy'n cael eu gohirio.

**Gwybodaeth ymhellach i OAQ21211, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog,
ar 20 Ionawr 2003**

I Alison Halford:

Yr wyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiwn llafar OAQ21211 ar 17 Rhagfyr, ynglŷn â chyllido mesurau diogelwch yn nociau Mostyn. Deallaf eich bod wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog Cyllid ac iddi roi ymateb ysgrifenedig ichi ar 26 Gorffennaf.

Fel y dywedodd y Gweinidog wrthy, ni all y Cynulliad drafod union fanylion cyllido gweithgareddau i wrthsefyll ymosodiadau terfysgol. Yr un yw'r trefniant cyllido ar gyfer y trefniadau diogelwch yn nociau Mostyn ag ym mhob porthladd arall o bwys yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r prif gwnstabl yn gwbl fodlon â'r rhaglen gyllido bresennol.